# Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

## Yr Amgylcheddol a Materion Gwledig – Adroddiad diweddaru blynyddol ar hynt y Cynllun Busnes

### Cyflwyniad

Cynllun statudol a sefydlwyd o dan adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yw Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru ac mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pendant i ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu polisïau a deddfwriaeth. Yng Nghynllun Busnes Gweinidogion Cymru, diffinnir 'partneriaid cymdeithasol' fel 'cyrff sy'n cynrychioli busnesau a chyflogwyr, undebau llafur a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli'. Mae Prif Weinidog Cymru yn cadeirio Cyngor Adnewyddu'r Economi sy'n llywio'r gwaith hwn ac sydd hefyd yn ariannu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, sy'n hybu'r broses o ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol.

Mae'r adroddiad diweddaru blynyddol hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Prif Weinidog a Chyngor Adnewyddu'r Economi am y gweithgareddau perthnasol yr ymgymerodd portffolio'r Amgylchedd a Materion Gwledig â nhw mewn perthynas â gofynion Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2015 a diwedd mis Rhagfyr 2016.

## Gweithgareddau/Ymgysylltu

**Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol Cymru**

Sefydlwyd y Gweithgor yn 2016 a chyfrannodd a chyd-ysgrifennodd yr adroddiad, Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru, a gyhoeddwyd fis Mai 2017. Ymgysylltwyd yn bennaf drwy gyfarfodydd y Gweithgor a drwy rannu fersiynau drafft o'r adroddiad i gytuno ar ei gwmpas a'i gynnwys. Roedd hwyluswyr allanol yn rhan allweddol o'r broses.

Mae'r partneriaid cymdeithasol yn cynnwys: Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Ffederasiwn y Busnesau Bach, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru a Renewable UK Cymru. Cafodd partneriaid cymdeithasol eu cynnwys o'r dechrau un a drwy gydol y broses wedyn, ac mae'r holl gyfranwyr, gan gynnwys y partneriaid cymdeithasol, yn perchenogi'r adroddiad.

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC gadeiriodd y broses, gyda chymorth swyddogion Llywodraeth Cymru.

Roedd y partneriaid cymdeithasol yn gweld y manteision a oedd ynghlwm wrth gyfrannu at y broses gan gymryd camau pendant i ymgysylltu â hi. Roeddent yn cefnogi dulliau cynmhwysol a chydweithredol y Gweithgor o weithredu.

Cafodd yr holl bartneriaid cymdeithasol yr un cyfle i gyfrannu at y Gweithgor ac roeddent i gyd yn cytuno bod cynnwys yr adroddiad dilynol yn rhoi darlun cywir o drafodaethau'r Gweithgor.

**Cyswllt Ffermio – Gwasanaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Chynghori 2014-2020**

Dechreuodd contractau newydd Cyswllt Ffermio yn nhymor yr hydref 2015. Erbyn mis Rhagfyr 2016, roedd 5,883 o fusnesau ac 11,583 o unigolion wedi cofrestru â'r rhaglen newydd.

Caiff gweithgareddau eu targedu at y busnesau hynny sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a choedwigaeth er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol, cynaliadwyedd, eu gallu i gystadlu ac i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae'n hybu twf economaidd a'r gwaith o ddatblygu ardaloedd gwledig er mwyn bod yn barod i wynebu'r her sydd o'n blaenau ac i ddiogelu dyfodol diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru.

**Grŵp Cynghori Strategol Cymru ar Faterion Morol**

Bydd uwch randdeiliaid yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a chaiff y Grŵp ei gadeirio gan Peter Davies, ymgynghorydd annibynnol a ddewiswyd gan aelodau'r Grŵp y lywio'r digwyddiadau. Bydd yr aelodau'n cymryd rhan ar grwpiau gorchwyl a gorffen, fforymau a chyfarfodydd unigol.

Mae'r fforwm yn gyfle i randdeiliaid o'r holl sectorau morol drafod materion sy'n effeithiol ar y byd morol. Caiff ymgynghoriadau eu rhannu â'r Grŵp cyn gynted â phosibl.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**

Defnyddiwyd sesiynau galw heibio i gasglu sylwadau ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar ddechrau'r cylch datblygu, gan ganiatáu i bartneriaid cymdeithasol roi sylwadau ar Gynllun Morol Cymru cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau.

Contractiwyd Fforwm Arfordir Sir Benfro i hwyluso'r sesiynau galw heibio.

Oherwydd natur y sesiynau, roedd parodrwydd a gallu busnesau a phartneriaid cymdeithasol i gymryd rhan yn amrywio. Cymerodd staff Fforwm Arfordir Sir Benfro ran lawn yn y broses. Bu modd i'r rhanddeiliaid a aeth i'r sesiynau galw heibio roi barn ar y Cynllun Morol. Casglwyd eu sylwadau a'u cynnwys yn adroddiad y Fforwm ar y digwyddiadau.

**Bwrdd Rheoli Pysgodfeydd**

Cynhaliwyd cyfarfod bob chwarter. Roedd y Bwrdd yn cynnwys Cymdeithas Pysgotwyr Cymru. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafodd y Gymdeithas Pysgotwyr gyfle i ddylanwadu ar bolisïau, a rhoi sylwadau ar bolisi a blaenoriaethau pysgota'r Prosiect Pysgodfeydd Gwell.

**Re:fit Cymru - cwrdd â'r cyflenwyr a rhoi gwybod am gyfleoedd economaidd**

Gwahoddwyd busnesau Cymru i ddau ddigwyddiad i gyfarfod â phrynwyr, a hynny fis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016.

Trefnwyd y digwyddiadau hyn i dynnu sylw at raglen Re:fit Cymru sy'n helpu cyrff cyhoeddus Cymru i roi cynlluniau arbed ynni ar waith.

Mae'r rhaglen yn defnyddio fframwaith cyflenwyr o'r DU. Yn y ddau ddigwyddiad, cyflwynwyd cyflenwyr y fframwaith i gadwyn gyflenwi Cymru a chafodd cadwyn gyflenwi Cymru gyfle i ddeall sut i fod yn ddarparwyr cymeradwy ar gyfer y cyflenwyr.

Ers hynny, mae prosiectau wedi postio hysbysiadau hapfasnachol ar GwerthwchiGymru a throsglwyddwyd enwau'r cwmnïau a ddangosodd ddiddordeb i'r cyflenwyr eu hystyried.

Defnyddiwyd contract a oedd gan Lywodraeth Cymru ag Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i ymgysylltu â chadwyn gyflenwi Cymru er mwyn datblygu'r sector nwyddau a gwasanaethau. Roedd cryn ddiddordeb yn y De, ond llai yn y Gogledd, ond cafwyd ymateb da ac mae'n broses yn parhau.

**Rhaglen Datgarboneiddio**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfod â Chydffederasiwn Busnesau Cymru (CBI) i drafod yr angen i fyd diwydiant ymwneud mwy â'r rhaglen datgarboneiddio. Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y CBI i baratoi ymateb i gais am dystiolaeth gan Gyllidebau Carbon Cymru. Ers hynny, mae Cyfarwyddwr y CBI wedi ysgrifennu erthygl newyddion am bwysigrwydd sicrhau bod busnesau'n addasu i ddatblygu economi carbon isel.

**Rhoi systemau draenio cynaliadwy ar waith mewn datblygiadau newydd**

Sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp cynghori rhanddeiliaid i ystyried sut y gellid rhoi polisi ar waith i hybu Cynllun Draenio Cynaliadwy ac i geisio cyngor ynghylch y goblygiadau ymarferol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Grŵp fis Hydref 2016; llwyddodd i lywio'r gwaith y mae angen i ymgynghorwyr ei wneud i ddeall y goblygiadau a chynigiodd wybodaeth werthfawr.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r grŵp cynghori yn ystod pob cam o'r broses. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw ymgysylltiad ar ddechrau'r broses bob amser yn arwain at gonsensws.

Mae pob sector wedi bod yn awyddus i ymgysylltu gan gynnwys adeiladwyr ac awdurdodau lleol oherwydd yr effaith ar eu busnes (er gwell neu er gwaeth).

## Ymgynghori

**Ymgynghori deddfwriaethol ynghylch Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfle i'r CBI, Ffederasiwn y Busnesau Bach ac undebau'r amaethwyr i gyfrannu'n uniongyrchol at ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol ynghylch is-ddeddfwriaeth a ddefnyddir i roi darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar waith. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o blith y rhanddeiliaid hefyd i fod yn aelodau o baneli a grwpiau ymgynghori er mwyn medru defnyddio'u gwybodaeth arbenigol wrth ddatblygu deddfwriaeth.

Cafwyd ymatebion yn ymwneud â'r agweddau hynny ar ddeddfwriaeth roedd y rhanddeiliaid yn teimlo'u bod yn effeithio ar eu busnesau.

Yn dilyn pob ymgynghoriad cynllunio, rhaid cyflwyno adroddiad sy'n cynnwys yr holl sylwadau a gafwyd a'r drafodaeth a gafwyd ar y pwyntiau a godwyd.

**Galw am dystiolaeth am gyfrif allyriadau net Cymru**

Gwahoddwyd yr holl randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, i ymateb i'r cais am dystiolaeth am gyfrif allyriadau net Cymru.  Roedd y dogfennau ar gael ar wefannau Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC).

Anfonwyd cylchlythyr a negeseuon e-bost at y rhanddeiliaid cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori i'w hannog i ymgysylltu.

Gwahoddwyd y rhanddeiliaid i ddigwyddiad yng Nghaerdydd gyda Llywodraeth Cymru ac UKCCC i'w helpu i ddeall y broses yn well. Daeth nifer o fusnesau i'r digwyddiad ac ymatebodd nifer ohonynt i'r cais am dystiolaeth.

**Galw am dystiolaeth am Gyllidebau Carbon Cymru**

Gwahoddwyd yr holl randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, i ymateb i'r cais am dystiolaeth am Gyllidebau Carbon Cymru. Mae'r ymgynghoriad ar agor ar hyn o bryd a daw i ben ar 11 Medi. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghaerdydd a Gogledd Cymru.

## Gweithgareddau yn y dyfodol

**Mentrau strategol yn y byd amaethyddol – Agri SI**

Mae Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 – 2020 yn allweddol i'r broses o alluogi sectorau amaethyddol Cymru i fod yn fwy cynhyrchiol, proffidiol a blaengar, gan eu cynorthwyo yn ystod cyfnod o newidiadau sylweddol er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i ffynnu mewn amgylcheddol sy'n ymateb fwyfwy i ofynion y farchnad.

Mae'r dulliau presennol o gynorthwyo'r sector yn gyffredinol iawn eu natur, ac yn aml yn cynnig gweithgareddau generig i ddiwallu anghenion ffermwyr unigol. Yn ôl yr adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru gan Kevin Roberts (Cadeirydd Amaeth Cymru) mae'n amlwg bod angen mabwysiadau dulliau newydd o weithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i weithgareddau ac yn cyfuno ymyriadau penodol mewn un rhaglen yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi gyfan.

Mae Amaeth Cymru yn awyddus i ddatblygu menter strategol ar gyfer amaethyddiaeth oherwydd y caiff ei ystyried yn allweddol i'r ymdrech i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer 'diwydiant amaeth ffyniannus, cryf sy'n hyrwyddo llesiant Cymru yn awr ac yn y dyfodol".

Y nod yw cael digon o fàs critigol i hwyluso newidiadau yn y diwydiant, felly'r nod yw helpu o leiaf 4,000 o fusnesau, a hyd at 7,000, dros gyfnod o bum mlynedd (targed a bennwyd yn ôl y nifer a gyfranogodd ran erbyn diwedd blwyddyn gyntaf rhaglen Cyswllt Ffermio).

Byddai busnesau'n cymryd rhan yn y fenter strategol yn wirfoddol ac, yn ddelfrydol, byddent yn parhau i gymryd rhan tan ddaw'r rhaglen i ben.

Gyda chymorth Cyswllt Ffermio a data a gesglir am ffermydd unigol drwy system meincnodi'r Bwrdd Datblygu Daliadau Amaethyddol (AHDB), sef Farmbench, caiff pob fferm/busnes coedwigaeth unigol ddadansoddiad SWOT o'u busnes (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau).

Bydd cynllun gweithredu, a ddatblygwyd ar sail y dadansoddiad hwn, yn cyfeirio'r busnesau at y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd gan Cyswllt Ffermio neu, os yw'n berthnasol, at becynnau cymorth penodol a gaiff eu datblygu.

**Grant Busnes i Ffermydd**

Mae Cyswllt Ffermio yn helpu i ddatblygu Grant Busnes i Ffermydd a fydd ar gael i ffermwyr drwy Gymru yn 2017.

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd yn elfen bwysig o Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig 2014-2020. Cafodd y Grant ei gynllunio i helpu ffermwyr Cymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol. Y nod yw cynyddu buddsoddiadau ar y fferm, perfformiad technegol a chynhyrchiant y fferm ac annog ffermwyr i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

Bydd disgwyl i fusnesau ystyried eu hyfywedd a'u sefyllfa bresennol, gan hefyd ystyried i ba gyfeiriad y mae eu busnesau'n mynd a'r problemau posibl a fydd yn wynebu eu sector ar ôl i'r DU adael yr UE.

**Cynllunio**

Bydd gweithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol yn ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, adolygu Polisi Cynllunio Cymru, adolygu'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r Ymgynghoriad ynghylch caniatadau ynni yn y dyfodol yng Nghymru.

**Systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd (SuDS)**

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cynnal gweithdy a noddir gan sefydliadau proffesiynol i roi cyfleoedd eraill i randdeiliaid ymateb.

Hefyd, bydd cyfarfod o'r Grwpiau Cynghori SuDS ar ôl yr ymgynghoriad.

Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth eu cyhoeddi fis Medi.